Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gyfun Dyffryn Teifi
**Heol Llyn y Frân**
**Llandysul**
**Ceredigion**
**SA44 4HP**

**Dyddiad yr arolygiad: Ebrill 2013**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.


Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**



**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2013: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**



**Dyddiad cyhoeddi: 04/07/2013**

## Cyd-destun

Ysgol ddynodedig ddwyieithog ar gyfer disgyblion 11–18 oed a gynhelir gan awdurdod lleol Ceredigion yw Ysgol Gyfun Dyffryn Teifi. Mae ynddi 499 o ddisgyblion, gan gynnwys 89 o fyfyrwyr yn y chweched dosbarth.

Mae'r ysgol yn gwasanaethu tref Llandysul yn ogystal â dalgylch gwledig eang.

Mae 9.7% o'r disgyblion â'r hawl i brydau ysgol am ddim, sydd yn is na'r canran cenedlaethol o 17.4%. Mae pob un o'r disgyblion yn perthyn i'r grŵp ethnig gwyn Prydeinig.

Derbynia'r ysgol ddisgyblion o'r ystod gallu llawn. Mae 2.6% o'r disgyblion ar ddatganiad o anghenion addysgol arbennig, sydd yn debyg i'r canran cenedlaethol. Yn ogystal, mae tua 27% o'r disgyblion ar gamau 'gweithredu gan yr ysgol' a 'gweithredu gan yr ysgol a mwy', sydd ychydig yn is na'r canran cenedlaethol.

Daw 81% o'r disgyblion o gartrefi lle mae'r Gymraeg yn iaith y cartref. Cyflwynir bron pob agwedd o'r cwricwlwm trwy gyfrwng y Gymraeg.

Penodwyd y pennaeth i'w swydd yn 2006. Roedd y dirprwy bennaeth ac un pennaeth cynorthwyol hefyd yn eu swyddi adeg yr arolygiad diwethaf. Penodwyd pennaeth cynorthwyol arall yn ystod y flwyddyn diwethaf.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gyfun Dyffryn Teifi yn 2012-2013 yw £5,182. Yr uchafswm fesul disgybl yn ysgolion uwchradd Ceredigion yw £6,490 a'r lleiafswm yw £4,468. Mae Ysgol Gyfun Dyffryn Teifi yn y pedwerydd safle o'r saith ysgol uwchradd yng Ngheredigion o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

# Crynodeb

| Perfformiad presennol yr ysgol | Digonol |
|---|---|
| Rhagolygon gwella'r ysgol | Da |

**Perfformiad presennol**

Mae'r nodweddion da yng ngwaith yr ysgol yn cynnwys:

- cynnydd ym mherfformiad disgyblion yng nghyfnod allweddol 3 a'r chweched dosbarth;
- addysgu effeithiol mewn llawer o'r gwersi;
- lefelau presenoldeb sy'n cymharu'n ffafriol gydag ysgolion tebyg; ac
- ymddygiad da iawn gan bron pob disgybl.

Fodd bynnag, mae perfformiad yn ddigonol oherwydd bod:

- perfformiad yn y rhan fwyaf o ddangosyddion yng nghyfnod allweddol 4 yn gyson is nag ydyw mewn ysgolion tebyg;
- perfformiad bechgyn yn y dangosyddion sy'n cynnwys Cymraeg a Saesneg yn is na pherfformiad bechgyn mewn ysgolion tebyg; a
- threfniadau cofrestru disgyblion ar gyfer arholiadau yng nghyfnod allweddol 4 mewn ychydig o bynciau yn cyfyngu ar gyfleoedd disgyblion i gyrraedd eu llawn botensial.

**Rhagolygon gwella**

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn dda oherwydd bod:

- gan y pennaeth weledigaeth strategol eglur, gyda ffocws clir ar godi safonau;
- yr ysgol wedi gwneud cynnydd buddiol mewn meysydd arwyddocaol, megis lles ac addysgu, yn ystod cyfnod o gyfyngiad ariannol a chwymp yn niferoedd y disgyblion;
- gan y pennaeth ac uwch rheolwyr dealltwriaeth dda o'r cryfderau a meysydd i'w gwella;
- llawer o arweinwyr canol yn ymgymryd â'u rolau yn effeithiol ac maent wedi cael effaith gadarnhaol ar les disgyblion ac ansawdd yr addysgu; ac
- mae gweithgorau wedi cael effaith gadarnhaol ar y ddarpariaeth ar gyfer medrau ac ansawdd yr addysgu.

## Argymhellion

A1 Codi safonau yng nghyfnod allweddol 4

A2 Cau'r bwlch rhwng perfformiad bechgyn a merched a'r bwlch rhwng perfformiad disgyblion sy'n hawlio prydau ysgol am ddim a gweddill y garfan

A3 Cryfhau systemau olrhain cynnydd yr ysgol gyda ffocws cryf ar ddefnyddio'r wybodaeth i herio tangyflawni

A4 Cryfhau'r cyswllt rhwng hunanarfarnu a chynllunio ar gyfer gwella ar lefel adrannol

A5 Datblygu rôl rheolwyr canol a chynyddu eu hatebolrwydd

A6 Cryfhau defnydd llywodraethwyr o ddata i herio perfformiad yr Ysgol

A7 Adolygu polisi mynediad i arholiadau, yn enwedig yng nghyfnod allweddol 4

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn monitro cynnydd yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Digonol |
| --- | --- |

**Safonau: Digonol**

Dros y pedair blynedd diwethaf, mae perfformiad yng nghyfnod allweddol 4 wedi aros yn gymharol sefydlog, ac eithrio gostyngiad yn 2010. Fodd bynnag, yn ystod y tair blynedd diwethaf, mae perfformiad yn y rhan fwyaf o'r prif ddangosyddion wedi bod yn is na chyfartaledd y teulu ac ymysg y 50% isaf o ysgolion tebyg o ran hawl i brydau ysgol am ddim.

Mae perfformiad yn y prif ddangosydd sy'n cynnwys Saesneg neu Gymraeg a mathemateg wedi amrywio ond ers 2010 mae perfformiad wedi symud yn agosach i'r hyn a ddisgwylir o ystyried lefelau prydau ysgol am ddim yr ysgol. Fodd bynnag, mae perfformiad yn y dangosydd hwn, dros y tair blynedd diwethaf wedi bod yn is na chyfartaledd y teulu ac ymysg y 50% isaf o ysgolion tebyg sy'n hawlio prydau ysgol am ddim. Mae perfformiad yn y rhan fwyaf o ddangosyddion eraill yn adlewyrchu patrwm tebyg.

Yng nghyfnod allweddol 3, mae cyfran y disgyblion sy'n cyflawni lefel 5 neu'n uwch mewn Saesneg neu Gymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth mewn cyfuniad wedi cynyddu'n sylweddol dros y pedair blynedd diwethaf. Ers 2010, mae cyflawniad wedi bod yn uwch na chyfartaledd y teulu o ysgolion ac wedi bod ymysg y 50% uchaf o ysgolion tebyg o ran prydau ysgol am ddim. Gwelir patrwm tebyg yn y pynciau craidd yn unigol. Er bod perfformiad ar lefel 5 neu'n uwch wedi gwella, nid yw perfformiad ar lefel 6 neu'n uwch neu lefel 7 neu'n uwch wedi dangos yr un cynnydd ac yn cymharu'n llai ffafriol gydag ysgolion tebyg.

Yng nghyfnod allweddol 3, mewn lleiafrif o bynciau, yn cynnwys Cymraeg a Saesneg, mae gwahaniaeth arwyddocaol ym mherfformiad bechgyn a merched, gyda pherfformiad bechgyn yn is na pherfformiad bechgyn mewn ysgolion tebyg. Yng nghyfnod allweddol 4, mae'r un patrwm yn parhau.

Yn ystod y tair blynedd diwethaf, mae perfformiad disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim wedi bod sylweddol yn is na pherfformiad gweddill y garfan.

Yn 2012 roedd cynnydd disgyblion o gyfnod allweddol 2 i gyfnod allweddol 4 yn annigonol.

Dros y tair blynedd diwethaf, mae perfformiad myfyrwyr y chweched dosbarth wedi cryfhau, ac mae nawr yn uwch na chyfartaledd y sir a chyfartaledd Cymru. Fodd bynnag, mae gwahaniaeth sylweddol rhwng perfformiad bechgyn a merched.

Dros yr un cyfnod, nid oes yr un disgybl wedi methu ennill cymhwyster cydnabyddedig, ac ar ôl Blwyddyn 11, mae bron pob disgybl yn aros mewn addysg, gyflogaeth neu hyfforddiant amser llawn. Mae hyn yn well na'r cyfartaledd sirol a'r cyfartaledd cenedlaethol.

Mewn llawer o wersi, mae disgyblion yn gwneud cynnydd da wrth ddatblygu eu gwybodaeth a dealltwriaeth mewn cyd-destunau newydd. Maent yn gallu dwyn i gof ddysgu blaenorol ac yn datblygu'n effeithiol ar eu gwybodaeth a dealltwriaeth. Mae mwyafrif hefyd yn gallu cymhwyso'r hyn y maent yn ei ddysgu i ddigwyddiadau a sefyllfaoedd bob dydd. Yn yr ychydig o achosion lle mae'r addysgu'n rhagorol, mae disgyblion yn ymateb i herio a chwestiynu gan yr athro ac yn gwneud cynnydd da iawn. Fodd bynnag, yn y lleiafrif o wersi lle mae'r tasgau'n cynnig llai o her a'r cwestiynu'n rhy gaeedig, mae disgyblion yn gwneud llai o gynnydd.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwrando'n astud ar gyfarwyddiadau athrawon ac ar gyfraniadau eu cyd-ddisgyblion. Mae llawer o ddisgyblion yn barod i gyfrannu'n briodol at drafodaethau dosbarth ac ateb cwestiynau. Mae lleiafrif o ddisgyblion yn cynnig atebion estynedig ar lafar, yn ogystal â defnyddio iaith gyfoethog a soffistigedig. Mae ganddynt batrymau iaith aeddfed a naturiol. Fodd bynnag, mae ychydig o ddisgyblion yn cael trafferth mynegi eu syniadau neu ateb cwestiynau ar lafar.

Mae medrau dwyieithog y disgyblion yn gryfder amlwg. Mae lleiafrif o ddisgyblion yn trawsieithu'n naturiol ac yn gyfforddus wrth ysgrifennu'n estynedig yn y Gymraeg a'r Saesneg. Mae llawer o ddisgyblion yn gwneud defnydd rheolaidd a chywir o eirfa bynciol. Maent yn ysgrifennu at ystod eang o wahanol bwrpasau ac yn sicrhau trefn briodol i'w gwaith ysgrifenedig. Mae'r mwyafrif o ddisgyblion yn dangos gafael gadarn ar gystrawen ac atalnodi ac yn glir beth yw pwrpas a phwy yw'r gynulleidfa ar gyfer yr hyn maent yn ei ysgrifennu. Mae gan leiafrif o ddisgyblion strategaethau effeithiol i wirio a chywiro sillafu.

Mewn llawer o wersi, mae disgyblion yn darllen yn rhugl gyda mynegiant priodol. Mae'r lleiafrif o ddisgyblion sydd ag oedrannau darllen yn is na'u hoedrannau cronolegol yn gwneud cynnydd da o ganlyniad i grwpiau ymyrraeth. Mae rhan fwyaf o ddisgyblion yn gweithio'n dda mewn parau ac yn trafod syniadau'n synhwyrol mewn modd sy'n cyfoethogi eu dysgu.

Mae llyfrau llawer o ddisgyblion yn daclus ac yn adlewyrchu'r balchder amlwg sydd ganddynt yn eu gwaith. Mewn lleiafrif o bynciau mae disgyblion yn ymateb yn rheolaidd i sylwadau athrawon ac yn cywiro camgymeriadau sillafu a gramadeg. Yn y pynciau hyn, mae ymateb disgyblion i sylwadau athrawon yn arbennig ac yn gwneud cyfraniad sylweddol tuag at ymestyn eu gwybodaeth a dealltwriaeth.

**Lles: Da**

Mae bron pob disgybl yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac mae llawer ohonynt yn teimlo bod yr ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. Mae'r mwyafrif o ddisgyblion yn cymryd rhan mewn amrywiaeth eang o weithgareddau hybu ffitrwydd, megis pêl-osgoi a swmba. Mae llawer yn teimlo bod yr ysgol yn eu haddysgu'n effeithiol am bwysigrwydd bywyd a bwyta'n iach.

Mae cyfraddau presenoldeb disgyblion wedi gwella'n gyson dros y blynyddoedd diwethaf. Yn ystod y tair blynedd diwethaf, mae lefelau presenoldeb wedi bod ymysg y 50% uchaf o gymharu ag ysgolion tebyg o ran hawl i brydau ysgol am ddim.

Mae ymddygiad bron pob disgybl mewn gwersi ac ar safle’r ysgol yn dda iawn. Maent yn groesawgar i ymwelwyr ac yn falch iawn o’u hysgol. Dangosant barch a chwrteisi tuag at eu cyd-ddisgyblion a’r staff. Mae rhan fwyaf yn cyrraedd gwersi’n brydlon ac yn ymgartrefu’n sydyn i weithio. Mae llawer yn dangos cymhelliant amlwg ac yn gweithio’n frwdfrydig mewn gwersi.

Mae rôl y cyngor ysgol yn datblygu’n dda Gwna’r cyngor ysgol gyfraniadau gwerthfawr i rai agweddau ar fywyd yr ysgol, megis cynghori ar adeiladu’r ysgol newydd, bwyd y ffreutur a system newydd i dalu am ginio. Er bod disgyblion wedi hunanarfarnu agweddau ar fywyd yr ysgol, nid ydynt yn cyfrannu’n ffurfiol i brosesau llunio polisïau.

Mae aelodau o’r chweched dosbarth yn gwneud cyfraniadau brwdfrydig a gwerthfawr i gymuned yr ysgol. Maent yn ymfalchïo yn y cyfle i arwain disgyblion iau yr ysgol ac wedi sefydlu clwb ‘STYC’ i gynorthwyo disgyblion sy’n cael anawsterau gyda’u gwaith ysgol. Mae rhan fwyaf o’r disgyblion yn datblygu’r medrau angenrheidiol ar gyfer bywyd a gwaith tu hwnt i’r ysgol.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw’r ddarpariaeth?** | **Da** |

**Profiadau dysgu: Da**

Mae cwricwlwm yr ysgol yn cwrdd â’r gofynion statudol. Mae dewis da o gyrsiau cyffredinol a galwedigaethol yng nghyfnod allweddol 4 a’r chweched dosbarth, sy’n sicrhau profiadau eang ac addas i ddysgwyr unigol. Fodd bynnag, mewn ychydig o achosion mae trefniadau cofrestru disgyblion yn cyfyngu ar gyfleoedd disgyblion i gyrraedd eu llawn botensial. Mae’r ysgol yn cyflwyno Cymhwyster Bagloriaeth Cymru i ddisgyblion cyfnod allweddol 4 a’r chweched dosbarth. Cynigir llu o gyfleoedd a phrofiadau allgyrsiol mewn nifer o feysydd. Mae hyn yn gryfder yn yr ysgol.

Mae cyfleoedd effeithiol i ddatblygu medrau cyfathrebu’r disgyblion ac mae arfer dda yn yr ysgol wrth hyrwyddo medrau darllen ac ysgrifennu. Mae yna gyfleoedd niferus i ysgrifennu darnau estynedig ar draws y cwricwlwm. Fodd bynnag, nid oes digon o gyfleoedd ar draws lleiafrif o bynciau. Cefnogir disgyblion sydd ag oedran darllen is na’u hoedran cronolegol yn effeithiol. Mae rhaglenni ymyrraeth yr ysgol yn gryfder.

Rhoddir lle amlwg i’r dimensiwn Cymreig ar draws y cwricwlwm yn unol ag ethos a diwylliant yr ysgol a’r gymuned. Mae amrediad eang a chyfoethog o gyfleoedd i ymgymryd â gwahanol weithgareddau allgyrsiol drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae gan yr ysgol gynllun hyrwyddo Cymreictod sy’n hybu’r defnydd o’r iaith Gymraeg gan y disgyblion mewn modd effeithiol a chadarnhaol.

Caiff datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang eu hyrwyddo'n effeithiol. Cynhelir ymgyrchoedd ‘Masnach Deg’ yn achlysurol ac mae nifer dda o ddisgyblion wedi cymryd rhan mewn gweithgareddau cadw tir yr ysgol yn ddisbwriel a phrosiectau Cadw Cymru’n Daclus a glanhau Afon Teifi. Mae’r eco-bwyllgor brwd yn datblygu’n dda iawn. Fel rhan o brosiect Comenius, mae’r ysgol wedi datblygu cysylltiadau buddiol gydag ysgolion yn Awstria, yr Eidal, Denmarc, Portiwgal, gydag effaith gadarnhaol ar ymwybyddiaeth y disgyblion o faterion byd eang.

**Addysgu: Da**

Un o gryfderau'r ysgol yw'r berthynas waith effeithiol rhwng yr athrawon a'r disgyblion.

Yn yr ychydig o wersi lle mae'r addysgu yn rhagorol mae'r athrawon yn cwestiynu'n dreiddgar, yn herio disgyblion i feddwl ac yn cynllunio gwersi sy'n plethu'r holl fedrau yn gelfydd a phwrpasol. Yn y gwersi hyn, mae'r sialens yn gynyddol a'r athrawon yn fodlon arbrofi ag amrywiol dechnegau er mwyn dyfnhau dysgu'r disgyblion a gwneud iddynt fyfyrio ar eu dysgu er mwyn cadarnhau eu dealltwriaeth a symud eu dysgu ymlaen. Mae cyflymder y gwersi hyn yn sicrhau bod y dysgwyr yn weithredol drwy gydol y wers.

Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn cynllunio'n ofalus iawn ac yn pennu amcanion clir ar gyfer gwersi mewn cyd-destunau amrywiol a diddorol. Mae ganddynt wybodaeth bynciol dda iawn a llawer ohonynt yn modelu iaith yn effeithiol yn ogystal ag atgyfnerthu termau pynciol yn gyson drwy gydol y gwersi. Mae hyn yn cadarnhau gafael y disgyblion ar ystod o eirfa bwrpasol.

Medda llawer o athrawon ar ddisgwyliadau uchel o ddisgyblion. Mae mwyafrif yn gwahaniaethu tasgau'n bwrpasol ar gyfer yr holl ystod gallu. Defnyddir ystod eang o adnoddau a gweithgareddau er mwyn ysbrydoli ac annog disgyblion i gynnal eu diddordeb a chymhelliant.

Yn y lleiafrif o wersi llai llwyddiannus, nid yw'r gweithgareddau yn cynnig digon o her i'r disgyblion ac mae rhediad y dysgu yn araf. Yn y gwersi hyn, mae diffyg cwestiynau agored i annog disgyblion i resymu ac i gadarnhau eu dealltwriaeth o nodau'r wers.

Mae'r ysgol wedi rhoi ffocws clir ar ddatblygu strategaethau asesu yn y gwersi ac mae hyn yn gryfder ym mwyafrif y gwersi. Yn y gwersi hyn, caiff disgyblion gyfleoedd gwerthfawr i asesu eu gwaith eu hunain. Trwy ddefnyddio cyfres o dechnegau amrywiol mae'r athrawon yn procio disgyblion i ddeall pa mor dda y maent yn ei wneud ac yn rhoi amser iddynt feddwl am y camau nesaf i'w cymryd er mwyn gwella ansawdd eu gwaith. Mae llawer o athrawon yn marcio'n gyson. Mewn tua hanner yr adrannau, mae athrawon yn cynnig sylwadau hynod drwyadl a chynhaliol gan bennu targedau manwl am gynnwys y gwaith ac ansawdd iaith. Mae'r defnydd o'r holl strategaethau asesu hyn yn cael effaith bositif iawn ar y safonau.

Mewn ychydig o wersi, nid yw'r asesu mor llwyddiannus gan nad yw'r disgyblion yn ymwybodol o'r hyn sydd angen iddynt ei wneud er mwyn gwella ac nid yw eu gwaith yn cael ei farcio mor fanwl a chyson i'w galluogi i fesur eu cynnydd yn erbyn eu targedau.

Ers mis Medi 2011, mae system newydd yn ei lle er mwyn olrhain cynnydd disgyblion. Mae'r system hon yn cael ei datblygu'n briodol er mwyn caniatáu athrawon i ddadansoddi data i adnabod patrymau a phennu strategaethau i godi safonau. Fodd bynnag, nid yw'r defnydd o'r wybodaeth gan leiafrif o arweinwyr yn ddigon miniog i herio carfanau a grwpiau o ddisgyblion sy'n tangyflawni.

Mae rhieni yn derbyn gwybodaeth fanwl am gynnydd a lles eu disgyblion deirgwaith y flwyddyn sy'n cyd-fynd â chyfnodau tracio'r ysgol. Mae sylwadau'r athrawon yn fanwl a phenodol a'r targedau yn adeiladol. Caiff y rhieni a'r disgyblion gyfleoedd buddiol i ymateb i'r adroddiadau.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn cynnig amgylchedd dysgu hynod anogol a chefnogol sy'n rhoi lles a chynnydd y plentyn yn ganolog i'r holl broses addysgol. Mae egwyddorion cadarn wedi eu gwreiddio yn yr ysgol i ddatblygu unigolion sy'n ddinasyddion gofalgar â medrau cymdeithasol cadarn.

Mae rhaglen gynhwysfawr a strwythuredig wedi ei chynllunio i hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion. Mae'r rhaglen gyfoethog hon yn caniatàu i ddisgyblion Dyffryn Teifi fwynhau profiadau eang a chyfoethog drwy weithgareddau ysgol ac allgyrsiol. Mae disgyblion yn dysgu sut i ddathlu eu llwyddiannau eu hunain a pharchu gwerthoedd pobl eraill.

Mae cyfleoedd cyson yn ngweithgareddau'r ysgol sy'n cefnogi ac yn cyfrannu'n dda at iechyd, lles a dysgu disgyblion. Mae cynllunio gofalus wedi bod ar y rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol, gyda'r rhaglen addysg rhyw a pherthynas wedi ei hintegreiddio yn sensitif.

Mae'r gwasanaethau ysgol ac 'Ennyd i feddwl' yn rhoi cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion fyfyrio ar eu credoau eu hunain gan ddysgu mwy am gredoau eraill. Mae'r cyfle a roddir i ddisgyblion arwain mewn gwasanaethau hefyd yn eu datblygu i fod yn unigolion hyderus a chyfrifol.

Mae'r disgyblion yn derbyn cymorth ac arweiniad cyson yn ystod cyfnodau eu haddysg er mwyn gwneud penderfyniadau allweddol am eu dyfodol. Ceir tîm profiadol o arweinyddion cynnydd a chefnogir gwaith y tîm bugeiliol yn effeithiol gan yr asiantaethau lleol. Mae cyngor gyrfaol buddiol ar gael ac mae'r ysgol yn ymestyn y profiadau o fyd gwaith drwy gwrs Cymhwyster Bagloriaeth Cymru, wythnosau profiad gwaith a threfnu siaradwyr gwadd i gyflwyno profiadau byw i'r disgyblion am yrfaoedd amrywiol.

Caiff disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol eu cynnal a'u cefnogi gan dîm ymroddgar o staff. Mae rhaglenni ymyrraeth effeithiol i dargedu medrau sylfaenol y disgyblion ac mae'r cyfathrebu cyson gyda rhieni yn sicrhau bod gofal am y disgybl unigol yn flaenllaw. Datblygiad arbennig yw 'Hafan' yr ysgol sydd yn cefnogi disgyblion bregus. Mae'r ddarpariaeth hon yn greiddiol er mwyn datblygu medrau cymdeithasol a hybu hunan-ddelwedd y disgyblion sydd dan ei gofal.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae Ysgol Dyffryn Teifi yn ysgol gyfeillgar a chefnogol. Mae hi'n ysgol gynhwysol sy'n galluogi'r disgyblion a staff sy'n gysylltiedig â hi i deimlo'n falch o'u hunaniaeth a chyfranogi'n llawn yn mywyd yr ysgol. Mae'r ethos hwn yn seiliedig ar hyrwyddo a pharchu pawb.

Mae'r ysgol yn gwneud y gorau o'r amgylchedd ffisegol er nad yw'r safle gyfan yn hygyrch i ddisgyblion ag anableddau. Mae cyflenwad priodol o adnoddau ar gyfer gwersi a gweithgareddau cyffredinol, yn cynnwys digon o adnoddau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu. Ceir arddangosfeydd lliwgar o waith a llwyddiannau disgyblion ar draws dosbarthiadau a choridorau'r ysgol sy'n cyfleu awyrgylch ysgogol ar gyfer dysgu. Mae adnoddau pwrpasol ar gyfer hybu addysg gorfforol, gan gynnwys cae pob tywydd, a defnyddir pwll nofio a chanolfan hamdden y gymuned yn rheolaidd.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Da |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Er bod safonau yn ddigonol, arfarnir fod yr arweinyddiaeth yn dda. Mae hyn oherwydd bod y pennaeth yn darparu arweinyddiaeth gref. O ganlyniad i'w weledigaeth strategol eglur, mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd sylweddol mewn meysydd arwyddocaol, megis gwella ansawdd yr addysgu a chodi lefelau presenoldeb yn ystod cyfnod o gyfyngiadau ariannol a chwymp yn niferoedd y disgyblion. Mae wedi gwella ethos gofalgar yr ysgol lle mae ymddygiad da iawn yn gyffredin, wedi codi safonau yng nghyfnod allweddol 3 a'r chweched dosbarth, darparu cwricwlwm 14-19 eang a throi diffyg cyllidol sylweddol yn warged.

Mae'r pennaeth wedi ad-drefnu'r uwch dîm arwain yn briodol, yn rhannol drwy benodi pennaeth cynorthwyol ychwanegol i gryfhau ei gyfansoddiad. Caiff y pennaeth ei gefnogi'n dda iawn gan ei ddirprwy bennaeth ac mae ganddynt ddisgwyliadau uchel o'u staff.

Mae'r uwch dîm arwain yn cydweithio'n effeithiol, gan rannu gweledigaeth gytûn yn llwyddiannus ar gyfer datblygiad yr ysgol, gan gymryd ystyriaeth addas o flaenoriaethau cenedlaethol a lleol. Mae nodau ac amcanion yr ysgol yn glir gan roi pwyslais pendant ar les y disgybl a chryfhau'r ddarpariaeth.

Mae dosbarthiad y rolau strategol o fewn yr uwch dîm arwain yn gyffredinol yn briodol. Fodd bynnag, caiff yr holl adolygiadau adrannol eu cynnal gan y pennaeth a'r dirprwy bennaeth ac mae hyn yn arwain at faich gwaith sylweddol.

Mae rolau a chyfrifoldebau athrawon ac arweinwyr canol wedi eu diffinio yn glir, ac mae rhan fwyaf o'r staff yn ymroddedig i'w rolau. Rhoddir cyfle priodol i athrawon drafod eu swyddi a'u rolau fel rhan o'r trefniadau mewn prosesau rheoli perfformiad. Mae llawer o arweinwyr canol yn ymgymryd â'u rolau yn effeithiol ac maent wedi cael effaith gadarnhaol ar les disgyblion ac ansawdd yr addysgu.

Caiff rheoli perfformiad yr holl staff addysgu ei reoli'n effeithiol gan aelodau o'r uwch dîm arwain gyda'r baich gwaith mwyaf yn syrthio ar y pennaeth a'r dirprwy bennaeth. O ganlyniad, nid yw'r agwedd hon ar waith rheolwyr canol wedi ei datblygu'n llawn. Mae targedau rheoli perfformiad wedi eu cysylltu â'r blaenoriaethau ysgol a diwellir anghenion hyfforddiant unigol yn briodol trwy raglen hyfforddiant mewn swydd effeithiol. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o achosion, nid yw'r targedau hyn yn rymus ac ni roddir digon o bwysigrwydd i godi safonau yng nghyfnod allweddol 4.

Mae arweinwyr uwch yn delio'n briodol gyda materion pwysig am berfformiad adrannau mewn cyfarfodydd ffurfiol rheolaidd ar draws y flwyddyn ysgol. Mae'r cyfarfodydd hyn yn arwain at nodi pwyntiau gweithredu addas yn gysylltiedig â chodi safonau.

Gwneir defnydd addas o ddata i wella perfformiad o fewn nifer o systemau. Fodd bynnag, nid yw'r systemau hyn wedi cael eu mireinio ddigon, gyda ffocws digon manwl ar garfanau o ddisgyblion, i sicrhau eu bod yn hyrwyddo'r canlyniadau gorau yng nghyfnod allweddol 4. Gosodir heriau priodol i adrannau. Fodd bynnag, er bod yr ysgol ac adrannau yn cymharu perfformiad gyda phatrymau'r awdurdod lleol a Chymru, nid yw ychydig o'r arweinwyr canol yn cymharu perfformiad ddigon gyda pherfformiad ysgolion tebyg.

Mae gan y corff llywodraethol strwythur effeithiol o is-bwyllgorau ac mae'r llywodraethwyr yn gefnogol iawn i'r ysgol. Maent yn ymwybodol o'r prif gryfderau a'r meysydd sydd angen eu datblygu, ac mae eu dealltwriaeth o ddata perfformiad yn datblygu'n addas. Er bod y corff llywodraethol yn herio agweddau ar waith yr ysgol, nid yw'n herio'r ysgol ddigon o ran safonau a gwaith y disgyblion.

**Gwella ansawdd: Digonol**

Mae'r ysgol yn defnyddio ystod briodol o dystiolaeth uniongyrchol wrth arfarnu ei gwaith. Mae'n dadansoddi data perfformiad, yn ymgymryd ag arsylwadau gwersi ac adolygiadau adrannol, ac yn ymgynghori gydag aelodau staff, disgyblion a rhieni.

Mae adroddiad hunan arfarnu diweddaraf yr ysgol yn ddogfen gynhwysfawr a sy'n dadansoddi canlyniadau arholiadau yn fanwl. Mae'n gwneud arsylwadau gwerthfawr ar ei chryfderau ac yn dynodi'r meysydd sydd angen eu gwella, yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn. Fodd bynnag, mae'r ddogfen wedi dynodi gormod o feysydd sydd angen eu gwella. Erbyn hyn, mae'r meysydd hyn wedi eu crynhoi ac maent bellach yn cael eu blaenoriaethu'n briodol yn y cynllun datblygu drafft ar gyfer y tair blynedd nesaf.

Mae adroddiadau arfarnu yn dilyn adolygiadau adrannol yn seiliedig ar fframwaith Estyn, ac yn cael eu trafod yn fanwl gyda'r arweinyddion pwnc. Er hynny, mewn lleiafrif o achosion, nid oes digon o her i'r adrannau ac mae'r arfarniadau o'r deilliannau cyffredinol yn rhy gadarnhaol. Mae adroddiadau hunanarfarnu adrannol yn dilyn ffurf debyg i ddogfen yr ysgol. Fodd bynnag, maent yn ddisgrifiadol ac nid yw'r dadansoddiad o'r data yn gynhwysfawr. Mewn llawer o adroddiadau adrannol, ni roddir digon o bwyslais ar effaith arweinyddiaeth ac ansawdd y ddarpariaeth. Caiff cynllun datblygu'r ysgol ar gyfer 2010 i 2013 ei gysylltu'n agos â chynllun gweithredu blynyddol priodol. Er bod y cynllun yn darparu sail ddefnyddiol ar gyfer gwelliant, nid

yw lleiafrif o dargedau bob amser yn ddigon penodol, heriol na mesuradwy. Mae cynllun datblygu drafft yr ysgol ar gyfer y tair blynedd nesaf yn gynhwysfawr ac yn ffocysu'n strategol ar wella safonau yng nghyfnod allweddol 4. Er bod y cynllun yn darparu sail gadarn ar gyfer gwelliant, nid yw'r targedau a ddynodwyd bob amser yn ddigon heriol ac mae diffyg meini prawf llwyddiant penodol.

Mae'r ysgol ynghlwm wrth amryw o rwydweithiau o arfer broffesiynol, er enghraifft, addysgu a dysgu a'r dimensiwn Cymreig. Mae rhwydweithiau allanol yn cynnwys ymweliadau ag ysgolion eraill a chydweithio'n effeithiol gyda'i theulu o ysgolion. Mae'r gweithgorau yn gysylltiedig â hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar ansawdd yr addysgu.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae cysylltiadau buddiol a chyfathrebu da wedi eu sefydlu gyda sawl partner i wella safonau a lles disgyblion. Mae'r ysgol wedi ymrwymo i weithio mewn partneriaethau 14-19 amrywiol ar gyfer darparu cyrsiau yn effeithlon. Mae hyn wedi arwain at arlwy fwy eang i ddisgyblion gydag effaith gadarnhaol ar gymhelliant a phresenoldeb. Mae trefniadau sicrhau ansawdd priodol ar gyfer cyrsiau partneriaeth yn bodoli trwy gyfrwng protocol cydweithio 14-19.

Ceir cysylltiad buddiol gydag ysgolion partner cynradd o safbwynt cymedroli a safoni asesiadau athrawon. Mae ychydig o adrannau yn gweithio'n glos gyda'r ysgolion partner i ddarparu amryw o weithgareddau megis gweithgareddau am hanes yr ardal leol. Fodd bynnag, mae'r gwaith o gyd-gynllunio cwricwlaidd yn llai datblygedig.

Ceir partneriaeth dda rhwng yr ysgol a'r rhieni gyda phwyslais cryf ar feithrin perthynas agored ac adeiladol.

**Rheoli adnoddau: Digonol**

Mae gan yr ysgol lefelau staffio priodol i addysgu'r cwricwlwm. Er y gyfran uchel o staff sy'n addysgu dau neu dri phwnc, mae'r athrawon hyn yn derbyn cefnogaeth a chymorth effeithiol ac yn ymateb i'r her mewn modd brwdfrydig. Yn y chweched dosbarth, mae mwyafrif o'r dosbarthiadau yn fach iawn. Fodd bynnag, mae'r ysgol yn adolygu cost ac effaith y dosbarthiadau bychain ac maent wedi ymateb yn briodol drwy leihau nifer y gwersi a chyfuno dosbarthiadau Blwyddyn 12 a Blwyddyn 13 lle bo'n briodol.

Mae'r ysgol wedi ymateb yn egnïol i ddileu diffyg yn y gyllideb, yn enwedig yn ystod cyfnod lle mae newidiadau demograffig yr ardal wedi golygu bod nifer y disgyblion wedi lleihau. Ceir systemau priodol sy'n caniatáu i'r uwch dim rheoli, swyddog gweinyddol a'r pwyllgor cyllid i fonitro gwariant yn rheolaidd.

Er bod gweithdrefnau rheoli arian cadarn, digonol yw'r gwerth y mae'r ysgol yn ei ddarparu o ystyried deilliannau cyfnod allweddol 4.

## Atodiad 1

**Sylwadau ar ddata perfformiad**

Dros y pedair blynedd diwethaf, mae perfformiad yng nghyfnod allweddol 4 wedi aros yn gymharol sefydlog, ac eithrio gostyngiad yn 2010. Fodd bynnag, yn ystod y tair blynedd diwethaf, mae perfformiad yn y rhan fwyaf o'r prif ddangosyddion wedi bod yn is na chyfartaledd y teulu ac ymysg y 50% isaf o ysgolion tebyg o ran hawl i brydau ysgol am ddim.

Mae perfformiad yn y prif ddangosydd sy'n cynnwys Saesneg neu Gymraeg a mathemateg wedi amrywio ond ers 2010 mae perfformiad wedi symud yn agosach i'r hyn a ddisgwylir o ystyried lefelau prydau ysgol am ddim yr ysgol. Fodd bynnag, mae perfformiad yn y dangosydd hwn, dros y tair blynedd diwethaf, wedi bod yn is na chyfartaledd y teulu ac ymysg y 50% isaf o ysgolion tebyg sy'n hawlio prydau ysgol am ddim. Mae perfformiad yn y rhan fwyaf o ddangosyddion eraill yn adlewyrchu patrwm tebyg. Yn ystod y pedair blynedd diwethaf, mae perfformiad yn y trothwy lefel 2 wedi aros yn gymharol sefydlog, ond yn ystod y ddwy flynedd diwethaf, mae perfformiad yr ysgol yn y dangosydd hwn wedi bod yn is na chyfartaledd y teulu. Ers 2010, mae perfformiad wedi gosod yr ysgol ymysg y 50% isaf o ysgolion sy'n hawlio lefelau tebyg o brydau ysgol am ddim. Mae perfformiad yn y trothwy lefel 1 a'r sgôr pwyntiau wedi'i chapio yn adlewyrchu patrwm tebyg, ac yn 2011 a 2012, wedi gosod yr ysgol yn y 25% isaf o ysgolion lefelau tebyg o ran hawl i brydau ysgol am ddim.

Mae perfformiad yn y pynciau craidd yn unigol wedi aros yn gymharol sefydlog, ac eithrio gwyddoniaeth sy'n dangos tuedd o welliant. Yn 2012, roedd perfformiad mewn mathemateg, Saesneg a gwyddoniaeth yn is na chyfartaledd y teulu ac yn gosod yr ysgol yn y 50% isaf o ysgolion o ran prydau ysgol am ddim. Mae perfformiad yn y Gymraeg yn gryfach ac yn ystod y pedair blynedd diwethaf wedi bod yn uwch na chyfartaledd y teulu ac yn y 50% uchaf o ysgolion o ran lefelau prydau ysgol am ddim tebyg.

Yng nghyfnod allweddol 3, mae cyfran y disgyblion sy'n cyflawni lefel 5 neu'n uwch mewn Saesneg neu Gymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth o'u cyfuno wedi cynyddu'n sylweddol dros y pedair blynedd diwethaf. Ers 2010, mae cyflawniad wedi bod yn uwch na chyfartaledd y teulu o ysgolion ac wedi bod ymysg y 50% uchaf o ysgolion lle mae eu lefelau prydau ysgol am ddim yn debyg. Gwelir patrwm tebyg yn y pynciau craidd yn unigol. Er bod perfformiad ar lefel 5 neu'n uwch wedi gwella, nid yw perfformiad ar lefel 6 neu'n uwch neu lefel 7 neu'n uwch wedi dangos yr un cynnydd. Mae perfformiad ar lefel 6 neu'n uwch a lefel 7 neu'n uwch yn y Gymraeg a Saesneg yn gyffredinol yn well na chyfartaledd y teulu. Fodd bynnag, mae perfformiad gwyddoniaeth a mathemateg ar yr un lefel yn is na chyfartaleddau'r teulu o ysgolion.

Yng nghyfnod allweddol 3, mewn lleiafrif o bynciau, yn cynnwys Cymraeg a Saesneg, mae gwahaniaeth arwyddocaol ym mherfformiad bechgyn a merched, gyda pherfformiad bechgyn yn is na pherfformiad bechgyn mewn ysgolion tebyg. Yng nghyfnod allweddol 4, mae'r un patrwm yn parhau.

Yn 2012, roedd cynnydd disgyblion o gyfnod allweddol 2 i gyfnod allweddol 4 yn annigonol.

Yn ystod y tair blynedd diwethaf, mae perfformiad disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim wedi bod yn sylweddol is na pherfformiad disgyblion eraill.

Dros y tair blynedd diwethaf, mae perfformiad myfyrwyr y chweched dosbarth wedi cryfhau, ac mae nawr yn uwch na chyfartaledd y sir a chyfartaledd Cymru. Fodd bynnag, mae gwahaniaeth sylweddol rhwng perfformiad bechgyn a merched.

Dros y tair blynedd diwethaf, nid oes yr un disgybl wedi methu ennill cymhwyster cydnabyddedig, ac ar ôl Blwyddyn 11, mae bron pob disgybl yn aros mewn addysg, gyflogaeth neu hyfforddiant amser llawn. Mae hyn yn well na'r cyfartaledd sirol a'r chyfartaledd cenedlaethol.

## Atodiad 2

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymatebion i'r holiaduron i ddysgwyr**

Ymatebodd 127 o ddisgyblion, wedi eu dewis ar hap ar draws yr ysgol, i'r holiadur. Mae'r sampl hon yn cynrychioli chwarter o holl ddisgyblion yr ysgol. Mae ymatebion y disgyblion yn debyg i ddisgyblion mewn ysgolion uwchradd eraill.

Mae bron pob disgybl yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol. Mae llawer yn teimlo bod yr ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio a'r rhan fwyaf yn nodi bod ganddynt rywun i siarad gydag ef os ydynt yn poeni. Teimla llawer o ddisgyblion bod yr ysgol yn eu haddysgu sut i gadw'n iach a thystia'r rhan fwyaf bod digon o gyfleoedd yn yr ysgol i gael ymarfer corff yn rheolaidd. Mae llawer o ddisgyblion yn teimlo bod digon o offer yn yr ysgol. Mae'r rhan fwyaf yn teimlo eu bod yn gwneud yn dda ac yn nodi bod yr athrawon yn eu helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. Mae llawer yn teimlo bod y gwaith cartref sy'n cael ei osod yn adeiladu'n dda ar yr hyn maent yn ei ddysgu. Mae llawer o ddisgyblion yn nodi bod eraill yn ymddwyn yn dda.

Mae llawer o ddisgyblion yn teimlo bod staff yn trin pob disgybl yn deg ac yn dangos parch atynt. Teimla'r mwyafrif o ddisgyblion bod yr ysgol yn gwrando ar eu barn. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn nodi bod yr ysgol yn eu hannog i gymryd cyfrifoldeb. Mae'r rhan fwyaf yn datgan bod yr ysgol yn eu helpu i fod yn barod ar gyfer yr ysgol nesaf, coleg neu fywyd gwaith. Mae llawer o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 4 a'r chweched dosbarth yn teimlo eu bod wedi derbyn cyngor da wrth ddewis cyrsiau.

**Ymatebion i'r holiaduron i rieni**

Derbyniodd Estyn 51 o holiaduron gan y rhieni ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn fodlon neu'n fodlon iawn â'r ysgol yn gyffredinol. Ar y cyfan, mae ymatebion y rhieni yn debyg i rieni ysgolion uwchradd eraill.

Dywed y rhan fwyaf o'r rhieni fod eu plant yn hoffi'r ysgol ac yn teimlo'n ddiogel ynddi. Mae'r rhan fwyaf yn nodi bod ymddygiad y disgyblion yn dda, bod eu plant yn datblygu i fod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldebau a llawer yn nodi bod disgyblion yn cael eu parchu a'u trin yn deg. Mae'r rhan fwyaf yn teimlo bod yr addysgu'n dda a'r rhan fwyaf yn nodi bod eu plant yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. Mae'r rhan fwyaf o rieni yn teimlo eu bod yn derbyn gwybodaeth dda am gynnydd eu plentyn ac yn nodi bod yr ysgol yn eu paratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf, i goleg neu i waith. Mae llawer yn teimlo bod yna amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. Mae llawer o rieni o'r farn fod yr ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. Mae'r canran o rieni sy'n nodi hyn yn llai na'r canran o rieni sy'n nodi hyn mewn ysgolion uwchradd eraill.

## Atodiad 3

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Cath Evans | Arolygydd Cofnodol |
| Rhian Griffiths | Arolygydd Tîm |
| Gwyn Thomas | Arolygydd Tîm |
| Glenda Jones | Arolygydd Lleyg |
| Katherine Davies | Arolygydd Cymheiriaid |
| Iona Davies | Enwebai'r Ysgol |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| Dangosydd pwnc craidd (DPC) | Mae hyn yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn Cymraeg neu Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth, sef pynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol. |
| Teuluoedd o ysgolion | Crëwyd y rhain i alluogi ysgolion i gymharu eu perfformiad â pherfformiad ysgolion tebyg ledled Cymru. Mae teuluoedd yn cynnwys ysgolion sydd â chyfrannau tebyg o ddisgyblion y mae ganddynt hawl i gael prydau ysgol am ddim, sy'n byw yn yr 20% o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, sydd ag anghenion addysgol arbennig ac ar gynllun Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy neu ar ddatganiad ac y mae Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt a'u caffaeliad yn llai na chymwys. |
| Lefel 1 | Mae hyn yn gyfwerth â TGAU gradd D i G. |
| Trothwy Lefel 1 | Mae hyn yn golygu dysgu sy'n gyfwerth â phump TGAU graddau D i G. |
| Lefel 2 | Mae hyn yn gyfwerth â TGAU gradd A* i C. |
| Trothwy Lefel 2 yn cynnwys Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf a mathemateg | Mae hyn yn golygu dysgu sy'n gyfwerth â phump TGAU graddau A* i C yn cynnwys Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf a mathemateg. |
| Trothwy Lefel 2 | Mae hyn yn golygu dysgu sy'n gyfwerth â phump TGAU graddau A* i C. |
| Lefel 3 | Mae hyn yn gyfwerth â Safon Uwch gradd A* - E. |
| Trothwy Lefel 3 | Mae hyn yn golygu dysgu sy'n gyfwerth â dwy Safon Uwch graddau A* i E. |
| Sgôr pwyntiau cyfartalog ehangach | Mae hwn yn cynnwys yr holl gymwysterau a gymeradwywyd i'w defnyddio yng Nghymru yn yr oed perthnasol, er enghraifft, yn 16 neu'n 18 oed. |
| Sgôr pwyntiau ehangach wedi'i gapio | Mae hwn yn cynnwys yr wyth canlyniad gorau o'r holl gymwysterau a gymeradwywyd i'w defnyddio yng Nghymru yn 16 oed. |
| Setiau Data Craidd Cymru Gyfan | Gall ysgolion ac awdurdodau lleol gyfeirio at berfformiad o gymharu â'u teulu o ysgolion. Crëwyd y teuluoedd hyn o ysgolion i alluogi ysgolion gymharu'u perfformiad ag ysgolion |

| | |
|---|---|
| | tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae teuluoedd yn cynnwys ysgolion â chyfrannau tebyg o ddisgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, disgyblion sy'n byw yn 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad, a disgyblion sy'n llai na chymwys o ran dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol. |